

SUT I GYNNAL YMGYRCH WRANDO



BMae ymgyrch wrando leol yn bwynt cychwyn da ar gyfer ymgysylltu gyda'ch cymuned a chanfod beth mae eich cymdogion yn ei feddwl yw'r manteision a'r anfoneision am yr ardal, a beth efallai yw'r cryfderau, y sgiliau a'r asedau.

Tydd y canfyddiadau yn eich helpu i ddod i adnabod eich cymdogion, gan fagu ymddiriedaeth a pherthnasau yn eich cymuned. Gall hyn helpu gyda recriwtio gyfranogwyr ar gyfer gweithgareddau cymunedol hefyd, cysylltu â phartneriaid neu wneud gais am gyllid.

CAM WRTH GAM

1 PENDERFYNWCH BETH YW NOD EICH YMGYRCH WRANDO

Gallwch ddefnyddio ymgyrch wrando yn eich cymuned i:

- Gysylltu â, a chwrdd â'ch cymdogion
- Cael gwell dealltwriaeth o agweddau, dyheadau, a heriau a wynebodd eich cymuned

- Ystyriwch a yw cymdogion yn awyddus i weithredu ar heriau neu ddyheadau mewn cyffredin

- Profwch a yw eich syniadau am brosiect neu gamau gweithredu yn unol â gobeithion a phryderon eich cymuned

Gallwch fynd i [HYFFORDDIANT GWRANDO TREFNWYR CYMUNEDOL](#) (ar gael ar-lein a wyneb yn wyneb) neu geisio cefnogaeth gan eich [CANOLFAN TREFNIADAU CYMUNEDOL LLEOL](#) cyn ymgymryd ag ymgyrch wrando yn eich cymuned.


Community
Organisers
www.corganisers.org.uk

2 LLUNIO EICH HOLIADUR

Sicrhewch fod eich cwestiynau'n syml, yn dal sylw ac yn gryno, gan gymryd uchafswm o 10 munud i'w gwblhau.

Rydym yn argymhell bod y cwestiynau'n rhai pen agored. Dyluniwyd yr holiadur i'w lenwi'n anhysbys, i sicrhau eich bod yn derbyn ymatebion gonest.

Os ydych chi'n penderfynu casglu gwybodaeth bersonol gan ddefnyddio cwestiwn penodol at y diben hwnnw (C10 yn ein sampl), mae'n rhaid i chi ddilyn canllawiau GDPR gan ystyried sut y byddwch yn cadw ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd.



Gellir lawrlwytho sampl o holiadur yma neu o ourwatch.org.uk/running-events Addaswch yr holiadur at ddibenion eich cymuned ac amcanion eich ymgynghoriad. Gallwch ychwanegu cwestiynau am adnoddau cymunedol sydd eisoes yn bodoli ac arwyr lleol (unigolion a sefydliadau sy'n weithredol yn eich cymuned), neu gwestiynau am obeithion a syniadau ar gyfer dyfodol y gymuned.

3 DOSBARTHU EICH HOLIADUR

Gellir defnyddio'r holiadur n ystod ymgysylltiad stepen drws, teithiau cerdded o amgylch y gymuned neu ddigwyddiadau cymunedol. Gallwch ddefnyddio adnodd ar-lein, megis **Survey Monkey**, a'i hyrwyddo dros e-bost, ar wefannau, mewn grwpiau **Facebook** a **WhatsApp** lleol a rhwydweithiau cymunedol megis **NextDoor**. Gallwch ofyn i bartneriaid a sefydliadau lleol hefyd i helpu i'w dosbarthu'r arolwg trwy eu sianelau a'u

rhwydweithiau. Sicrhewch eich bod yn rhoi dyddiad cau clir, fel bod pobl yn gwybod pa mor hir sydd ganddynt i'w llenwi.

Os ydych chi'n penderfynu defnyddio eich holiadur mewn ymgysylltiad stepen drws, sicrhewch eich bod yn cofnodi asesiad risg ar gyfer y gweithgaredd.

Rydym yn argymhell bod pob gweithgaredd gwrandao wyneb yn wyneb yn digwydd mewn parau i leihau risgiau.

Bydd gofyn i rhai o gymdogion neu grwpiau/sefydliadau cymunedol yn ffordd dda o'u cynnwys yn eich gweithgareddau cymunedol.

4 DADANSODDI'R YMATEBION

Casglwch yr ymatebion yn y dull sydd orau i chi- taenlen, dogfen Word, siart cylch, ac ati - a chwiliwch am themâu yn gyffredin. A oes materion sy'n codi o hyd, neu sefydliad lleol mae pawb yn ei ganmol? Echdynnwch y patrymau sy'n codi pryder, yn ogystal â'r pwyntiau cadarnhaol, a chadwch lygad am unrhyw bartneriaethau

posibl neu asedau cymunedol y soniwyd amdanynt.

Cyfeiriwch yn ôl at nod gwreiddiol eich ymgyrch wrando, gan weld sut mae eich canfyddiadau yn helpu i'ch symud i ddealltwriaeth gliriach ar sut i ymateb i'r materion a nodwyd.

5 CYSYLLTU A GWEITHREDU!

Defnyddwch eich canfyddiadau i gysylltu â phartneriaid, sefydliadau, preswylwyr, y cyngor, yr heddlu ac unrhyw un arall yr ydych yn credu fyddai â diddordeb mewn helpu i wneud gwahaniaeth.

Lluniwch gynllun gweithredu ac ewch amdani! Gallai eich cam nesaf gynnwys trafod rhai syniadau penodol ynghylch 2 i 3 mater a godwyd yn eich ymgyrch. Gall y canfyddiadau o ymgyrch wrando gymunedol eich helpu i:

- Gychwyn sgysiau cymunedol
- Cysylltu â phartneriaid
- Creu strategaeth gymunedol ar y cyd y
- Adeiladu partneriaethau cymunedol ehangach
- Dod â budd-ddeiliaid ynghyd

POB LWC, A CHOFIWCH – MAE GWARCHOD Y GYMDOGAETH YMA I'CH CEFNOGI BOB AMSER!



Dilynwch ni... ourwatch.org.uk

